LEG-16-2002 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad**: | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| **Presenoldeb:** | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Janice Gregory | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Val Lloyd | (Llafur) |
| Gwenda Thomas | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-15-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

1.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, ar 21 Mai, bod cynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru Ms Karen Chandler, Y Swyddog Marchnata a Mr Iwan Brioc, y Cyfarwyddwr Cyswllt wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau ac wedi gwahodd yr Aelodau i gymryd rhan yn eu prosiect cyfredol "Yr AGORA", a oedd i'w gynnal yn yr Oval Basin, Bae Caerdydd rhwng Mehefin 26-28 2002. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i lansiad 'Yr Agora' a fyddai'n cael ei gynnal am 12.30pm heddiw yn neuadd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC400 – Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Nododd y Pwyllgor bod pwyntiau'r sylwadau cyffredinol yn briodol i'w cywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau ac y bwriadwyd eu cywiro yn y dull hwnnw.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC400 (Adroddiad).

**LC497 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC497 (Adroddiad).

**LC498 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad.

3.9 Codwyd cwestiwn mewn perthynas â'r rheswm dros osod y cromfachau yn dilyn 'DU' yn cynnwys 'Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel' yn 2(5) o'r Rheoliadau. Dywedodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y byddent yn ymchwilio i'r mater hwn. **Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol**

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC498 (Adroddiad).

**LC500 – Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC500 (Adroddiad).

**LC501 – Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor fod rheoliad 3 yn y testun Cymraeg wedi ei ddrafftio'n ddiffygiol o bosibl, a byddai modd ei gywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau:

- Dylai testun Cymraeg Rheoliad 3 gywiro testun Cymraeg Rheoliadau 7(1) a 24(1) o OS 2001/343 (W.15) drwy osod testun bwriadedig y Rheoliadau hynny ar ffurf lle bydd yr holl eiriau mewn dyfynodau yn Saesneg.
- Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad.

3.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC501 (Adroddiad)

**LC499 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio)** (Rhif 2) (Cymru) 2002

3.17 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC499 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Sue Essex AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd dyddiedig 19 Mehefin 2002**

**LC492 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

**4.1** Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn ymateb i'r llythyr dyddiedig 29 Mai 2002 at Sue Essex AC, Gweinidog yr Amgylchedd ar **Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002.** Roedd y Pwyllgor wedi ystyried bod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 oherwydd:

- er bod y gorchymyn yn ymddangos fel pe bai'n cyflwyno darpariaeth sy'n ymwneud â'r agweddau gweithdrefnol ar wneud cais cynllunio, mewn gwirionedd mae'n mynd y tu hwnt i hynny oherwydd mai'r effaith fwriadedig yw ei gwneud yn amhosibl gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer offer nad yw'n cydymffurfio. Felly, ymddengys fod amheuaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Gorchymyn o fewn pwerau'r Cynulliad ai peidio.Yn unol â hynny, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i hyn.
- roedd yr Aelodau yn bwriadu cynnwys hefyd yn Adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad y cynnig na fyddai'r Rheoliadau yn gyfreithiol mewn llys barn

**Eitem 5: Newid y Dyddiad Dod i Rym drwy Femorandwm Cywiriadau**

**LC491 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002**

**LC492 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

**LC493 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n briodol diwygio Dyddiad Dod i Rym y tri rheoliad canlynol: **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002** drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Gorffennaf 2002.